

Tasg 3

Gofalus!

1. Mae Jo'n dweud bod chwilio am Pokémon yn gallu bod yn beryglus. Sut mae hyn yn beryglus?

2. Darllenwch y penawdau newyddion yma.

30 o bobl yn ymladd wrth chwilio am Pokémon

Dyn yn gyrru i lawr ffordd unffordd yn anghywir - yn chwilio am Pokémon

Pobl yn cerdded ar hyd cledrau trên yn chwilio am Pokémon

Dyn yn dweud wrth blant, "Dewch i fy nhŷ achos mae gen i lawer o Pokémon."

Geirfa

peryglus	dangerous	cledrau	tracks
penawdau newyddion	news headlines	ffordd unffordd	one way street
wrth chwilio	whilst looking for	yn ddiogel	safely

3. Rhaid bod yn ofalus wrth chwilio am Pokémon.
Sut mae chwilio'n ddiogel?
Trafodwch hyn mewn grŵp a gwnewch nodiadau.

Byddwch yn ...

Cerddwch ...

Edrychwch ...

Rhaid i chi edrych ...



4. Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau grwpiau eraill.
5. Ysgrifennwch ddarn yn rhoi cyngor ar sut i chwarae'n ddiogel. Ydych chi'n cofio sut i roi cyngor?

Should / Shouldn't:

Dylet ti

Dylech chi

Ddylet ti ddim

Ddylech chi ddim

Gorchmynion:

Cerddwch ...

Edrychwch ...

Rhaid:

Rhaid i ti gerdded ...

Rhaid i chi gerdded ...

